# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 30 Ionawr 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Comisiwn Annibynnol ar Bwerau'r Cynulliad

**C12 Jocelyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ei gynlluniau i sefydlu comisiwn annibynnol ar bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ9165)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae'r cynlluniau ar gyfer comisiwn annibynnol yn parhau i fod yr un fath â'r rhai a amlinellir yn y cytundeb partneriaeth. Bydd yn rhaid i'r comisiwn ystyried tymor cyntaf llawn y Cynulliad wrth benderfynu ar argymhellion i'r dyfodol. Bydd y trefniadau ar gyfer aelodaeth y comisiwn, ei gylch gorchwyl a'i arferion gwaith yn cael eu pennu yn agosach at yr amser pan fydd yn dechrau gweithio, yn 2002-03. Bydd yn cyflwyno adroddiad yn fuan ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad.

### Goblygiadau'r Ewro i Gymru

**C13 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gyda'i gyd-Weinidogion yn San Steffan ynghylch goblygiadau posibl yr ewro i Gymru pan ddaw i rym yn llawn yn 2002? (OAQ9168) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Nifer Cynyddol Troseddau Treisgar

**C14 Dafydd Wigley:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch nifer cynyddol troseddau treisgar yng Nghymru? (OAQ9155)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi trafod ffigurau'r arolwg a wnaethpwyd yn ddiweddar ar lefelau troseddau Prydain gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

### Newidiadau i Bolisi Ewropeaidd y Cynulliad

**C15 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am unrhyw newidiadau y mae wedi'u gwneud i bolisi Ewropeaidd y Cynulliad? (OAQ9160)

**Prif Weinidog Cymru:** Y newid diweddaraf yw bod Tom Middlehurst wedi cymryd fy lle i fel un o gynrychiolwyr y Cynulliad ar fwrdd Canolfan Ewropeaidd Cymru. Bu sawl datblygiad yn y broses o weithredu polisi presennol y Cynulliad o gydweithio'n agosach gyda sefydliadau Ewropeaidd, gan gynnwys presenoldeb Gweinidogion y Cynulliad mewn tri cyfarfod diweddar o Gyngor y Gweinidogion ac fy mhresenoldeb i mewn cyfarfod o gynrychiolwyr o lywodraethau rhanbarthol pwysig Ewrop yn Barcelona.

### Datblygu Polisïau ar gyfer Materion Trawsbynciol

**C16 Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am y datblygiadau diweddaraf o safbwynt datblygu polisïau ar gyfer materion trawsbynciol yng Nghymru? (OAQ9167)

**Prif Weinidog Cymru:** O safbwynt mynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol, mae'r ail ymarfer ymgynghori ar y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ar waith ar hyn o bryd a disgwylir iddo ddod i ben ar 16 Mawrth 2001. Yn ddiweddar, sefydlwyd uned adfywio cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol

newydd er mwyn gweithredu'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ac er mwyn bwrw ymlaen â'r agenda cynhwysiant cymdeithasol.

Disgwylir cynnal trafodaeth ar y cynllun gweithredu datblygu cynaliadwy yn y Cyfarfod Llawn ddydd Iau 15 Chwefror. Mae 'Tuag at Gymru Gynaliadwy', sef papur ymgynghori, yn awr ar wefan y Cynulliad. Mae'r papur yn gofyn am sylwadau ar ei gynnwys a bidiau posibl ar gyfer y rhaglen gweithredu arloesol Ewropeaidd.

O ran cyfle cyfartal, yr ydym wedi sefydlu rhwydweithiau gyda thri o'r prif fudiadau cydraddoldeb yn y sector gwirfoddol—Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru-Gyfan, Anabledd Cymru a Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru—er mwyn cynorthwyo ein trafodaethau gyda mudiadau cydraddoldeb yn y sector gwirfoddol. Mae'r uned polisi cydraddoldeb yn parhau i gydlynu'r archwiliad cydraddoldeb o arferion a pholisïau'r Cynulliad.

### Ymgynghori ar Bolisïau rhwng Cabinet y Cynulliad a San Steffan

**C17 Geraint Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr am sut y bydd Cabinet y Cynulliad a San Steffan yn ymgynghori ar bolisïau? (OAQ9153)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cael cyfarfodydd rheolaidd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod materion polisi, ac mae fy nghydweithwyr yn y Cabinet yn cyfarfod â'u swyddogion cyfatebol yn San Steffan drwy gydol y flwyddyn. Yr ydym hefyd yn cael cyfarfodydd ffurfiol drwy gyfrwng Cydbwyllgor y Gweinidogion. Mae swyddogion hefyd yn ymgynghori, fel sydd yn briodol, gyda'u cydweithwyr yn San Steffan i gefnogi datblygu polisi o'r fath.

### Dirprwyaeth y DU yng Nghyfarfodydd Cyngor Gweinidogion yr UE

**C18 Ieuan Wyn Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad am y broses o gynnwys aelodau ei Gabinet yn nirprwyaeth y Deyrnas Unedig yng nghyfarfodydd Cyngor Gweinidogion yr Undeb Ewropeaidd? (OAQ9150)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at baragraffau 3.12 i 3.15 y concordat y cytunwyd arno gyda Llywodraeth y DU ynghylch cydlynu materion polisi'r Undeb Ewropeaidd, sydd yn amlinellu'r sefyllfa gyffredinol.

Cawn ein hysbysu gan adrannau Whitehall ynghylch dyddiadau cyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion yn y dyfodol a, cyn belled ag sydd yn bosibl, yr eitemau agenda sydd yn debygol o gael eu trafod yn y cyfarfodydd hynny. Yna, mater i fy nghydweithwyr gweinidogol yw ystyried a fyddai'n addas iddynt fynychu cyfarfodydd penodol, a chael caniatâd Gweinidog y DU sydd yn arwain ynghylch mynychu cyfarfod. Dylid sylweddoli ei bod yn angenrheidiol cyfyngu ar nifer y cynrychiolwyr o'r DU a all fynychu pob un o gyfarfodydd y cyngor, ac y gallai Gweinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon fod eisiau mynychu rhai cyfarfodydd, yn ogystal â Gweinidogion y Cynulliad. Felly, efallai na fyddai'n bosibl i un o Weinidogion y Cynulliad, neu un o Weinidogion yr Alban neu Ogledd Iwerddon, fynychu pob un o gyfarfodydd y cyngor y maent wedi mynegi diddordeb ynddo. Fodd bynnag, yn ddiweddar mynychodd Gweinidogion y Cynulliad Gynghorau Amaethyddiaeth, Iechyd, Addysg a Ieuenctid, gyda Jane Davidson yn arwain ar ran y DU yn y Cyngor Ieuenctid.

### Dieithrwch Cymdeithasol yng Nghymru

**C19 Christine Chapman:** Sut mae Prif Weinidog Cymru am ymateb i adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar ddieithrwch cymdeithasol yng Nghymru? (OAQ9146)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn croesawu archwiliad manwl y Pwyllgor ar ddieithrwch cymdeithasol. Mewn cydweithrediad ag aelodau eraill y Cabinet, byddaf yn edrych yn fanwl ar yr argymhellion a gynigiwyd yn yr adroddiad sydd yn berthnasol i'n cylch gwaith ni.

### Datblygiad Cymdeithasol, Economaidd a Diwylliannol Cymru

**C20 Richard Edwards:** Yn rhinwedd ei swydd fel cyd-drefnydd datblygu polisïau, pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru yn eu cymryd i hybu rhan cymunedau yn natblygiad cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru? (OAQ9169) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Perthynas y Cynulliad â Llywodraeth y Deyrnas Unedig

**C21 Pauline Jarman:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar berthynas y Cynulliad â Llywodraeth y Deyrnas Unedig? (OAQ9166)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae gennyf fi a'm cydweithwyr berthynas gyfeillgar ac adeiladol gyda'n cymheiriaid yn Llywodraeth y DU.

### Dealltwriaeth y Cyhoedd o Ddatblygu Cynaliadwy a Chynhwysiant Cymdeithasol

**C22 Rhodri Glyn Thomas:** Sut y bydd y Cynulliad yn hybu dealltwriaeth y cyhoedd o ddatblygu cynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol? (OAQ9157)

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd datblygu strategaeth i godi ymwybyddiaeth a hybu dealltwriaeth o faterion datblygu cynaliadwy yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu drafft ar gyfer gweithredu'r cynllun datblygu cynaliadwy.

Mae cynllun gweithredu ar ddieithrwch cymdeithasol yn cael ei baratoi, a bydd yn monitro newidiadau yn y dangosyddion allweddol ac yn gwerthuso'r cynnydd a wneir ar draws yr holl feysydd y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. Gallai enghreifftiau o ddangosyddion allweddol gynnwys mynediad at wasanaethau, ansawdd tai a chyraeddiadau addysgol.

### Cyflwr y Genedl

**C23 Cynog Dafis:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr am y drafodaeth a gafwyd yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth Busnes ar gyflwr y genedl? (OAQ9152)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyflwynwyd papur a oedd yn rhoi syniad cyffredinol o sefyllfa busnes yng Nghymru yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor Partneriaeth Busnes ar 1 Rhagfyr, a chafwyd trafodaeth arno. Ceir manylion am y drafodaeth honno yng nghofnodion y cyfarfod, sydd ar y rhyngrwyd a'r fewnrwyd erbyn hyn.

### Arian Ychwanegol i Awdurdod Heddlu De Cymru

**C24 Owen John Thomas:** A yw Prif Weinidog Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Cartref ynghylch sicrhau arian ychwanegol i Awdurdod Heddlu De Cymru gyflawni dyletswyddau arbennig yn y brifddinas? (OAQ9162) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Nac ydwyf, ond petai Awdurdod Heddlu De Cymru yn gwneud cais â sail mor dda iddo, byddwn, wrth gwrs, yn barod i gyfleu fy nghefnogaeth i'r cais hwnnw i'r Ysgrifennydd Cartref.

### Materion nas Datganolwyd sydd yn Ymwneud â Chymru

**C25 Jonathan Morgan:** A ydyw Prif Weinidog Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch materion sydd yn ymwneud â Chymru ond sydd heb eu datganoli i'r Cynulliad? (OAQ9170) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Perthynas y Cynulliad â'r Undeb Ewropeaidd

**C26 Janet Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar berthynas y Cynulliad â'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ9156)

**Prif Weinidog Cymru:** Cyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw perthnasau gyda'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, ymgynghorir â'r Cynulliad Cenedlaethol ar faterion sydd yn ymwneud â'r UE, a gall gyfrannu at bolisi'r DU, fel yr amlinellir yn y concordat ar gydlynu materion polisi'r Undeb Ewropeaidd. Mae sefydlu swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel, ynghyd â'n haelodaeth o Ganolfan Ewropeaidd Cymru, yn ein rhoi mewn llawer gwell sefyllfa nag yn y gorffennol i gyfrannu at ddatblygiadau polisi Ewropeaidd.

## Y Cyngor Prydeinig

**C27 Phil Williams:** Pa drafodaethau a gafodd Prif Weinidog Cymru gyda'r Cyngor Prydeinig i sicrhau bod Cymru'n cael digon o sylw yng ngweithgareddau'r Cyngor Prydeinig ledled y byd? (OAQ9151)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi cael trafodaethau penodol ynghylch y mater hwn gyda'r Cyngor Prydeinig. Fodd bynnag, mae Cyfarwyddwr Cyngor Prydeinig Cymru yn cyfarfod gyda grŵp o holl bleidiau'r Cynulliad Cenedlaethol deirgwaith y flwyddyn, gyda golwg ar gynorthwyo'r Cynulliad i hyrwyddo Cymru drwy rwydwaith y Cyngor Prydeinig o 110 o swyddfeydd dramor.

Mae cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Cyngor Prydeinig Cymru yn eistedd ar brif fwrdd y Cyngor Prydeinig er mwyn sicrhau bod materion datganoli perthnasol, gan gynnwys hyrwyddo Cymru dramor, yn cael eu dwyn i sylw'r bwrdd. Mae un o uwch swyddogion y Cynulliad yn eistedd ar Bwyllgor Ymgynghorol Cyngor Prydeinig Cymru.

Yn ogystal, mae gan Gyfarwyddwr Cyngor Prydeinig Cymru gysylltiad agos â'r gwaith sydd ar y gweill i ddatblygu agwedd fwy gydlynol tuag at hyrwyddo Cymru dramor.